

# CYFLOG ATHRAWON LLANW



## CYMRU 2024/25

**Mae gan athrawon llanw ran hanfodol i'w chwarae wrth godi a chynnal safonau addysgol uchel mewn ysgolion. Mae ymgyrchu i sicrhau hawliau proffesiynol i athrawon llanw yn flaenoriaeth allweddol i NASUWT, ynghyd â sicrhau tâl ac amodau gwaith teilwng i bob athro llanw.**

Y cyflogwr, yn amodol ar unrhyw reoliadau neu gytundebau statudol a all fod yn berthnasol yn genedlaethol a/neu'n lleol, sy'n pennu cyflog athrawon llanw. Mae natur eich perthynas gyflogaeth yn hollbwysig wrth bennu'r cyflog, pensiynau ac amodau gwasanaeth a fydd gennych fel athro llanw.

Mae'r prif berthnasoedd cyflogaeth athrawon llanw yn cynnwys:

1. cyflogaeth yn uniongyrchol gan awdurdod lleol;
2. cyflogaeth yn uniongyrchol gan ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol (h.y. ysgol gymunedol, ysgol sefydledig, ymddiriedolaeth sefydledig ac ysgol wirfoddol a gynorthwyr);
3. cyflogaeth yn uniongyrchol gan ysgol nas cynhelir gan awdurdod lleol (e.e. ysgol annibynnol);
4. cyflogaeth yn uniongyrchol gan asiantaeth gyflogi neu gwmni ambarél; a
5. cyflogaeth fel 'contractwr' neu ar sail hunangyflogedig.

Os ydych yn gyflogedig fel y'i diffinnir yng nghategoriâu 1 neu 2 uchod, yna bydd gennych hawl i gael eich talu yn unol â thelerau ac amodau cenedlaethol athrawon ysgol fel y'u diffinnir yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (STPC(W)D). Fel y cyfryw, mae gennych hawl i gael eich talu ar yr un sail â phob athro arall o dan delerau polisi tâl yr awdurdod lleol/ysgol.

Os ydych yn gyflogedig fel y'i diffinnir yng nghategori 3 uchod, yna efallai y bydd gennych hawl i gael eich talu yn unol ag amodau a thelerau athrawon ysgol cenedlaethol lle mae'r ysgol wedi ymrwymo i gytundeb ar y cyd â NASUWT i gyflogi pob athro yn unol â thelerau ac amodau cenedlaethol athrawon.

## Cyflogaeth yn unol â'r STPC(W)D

Os ydych yn cael eich cyflogi gan awdurdod lleol neu ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, neu gan ysgol sydd wedi mabwysiadu cydgytundeb ffurfiol i gymhwyso telerau ac amodau gwasanaeth cenedlaethol, yna dylech gael eich talu yn unol â darpariaethau'r STPC(W)D.

Mae'r STPC(W)D yn diffinio cyflog, amodau gwasanaeth (gan gynnwys oriau gwaith) a dyletswyddau proffesiynol athrawon. Mae'n fframwaith cenedlaethol ac mae'n statudol ac yn gytundebol. Mae'r STPC(W)D yn disgrifio athrawon llanw fel athrawon 'byr rybudd' ac yn amodi bod yn rhaid iddynt gael eu talu fel a ganlyn:

*Rhaid i athrawon a gyflogir o ddydd i ddydd neu fel arall ar fyr rybudd gael eu talu yn unol â darpariaethau'r Ddogfen hon ar sail ddyddiol, a gyfrifir gan dybio bod blwyddyn waith lawn yn cynnwys 195 diwrnod, a bydd cyfnodau cyflogaeth sy'n llai na diwrnod yn cael eu cyfrifo ar sail pro rata.*

Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i athrawon cyflenwi a gyflogir o dan ddarpariaethau'r STPC(W)D gael eu talu yn unol â'r ystodau cyflog a'r graddfeydd cyflog sy'n berthnasol i athrawon eraill. Wrth bennu eich cyfradd ddyddiol, rhaid i'r ysgol/awdurdod lleol gyfrifo hyn ar sail pro rata gan dybio bod eich blwyddyn waith yn cynnwys 195 diwrnod gwaith.

$$\text{Cyfradd ddyddiol} = \frac{X \text{ (cyflog blynyddol)}}{195 \text{ o ddyddiau}}$$

### Gwerthoedd cyflog 2024/25

Yng Nghymru, mae'r STPC(W)D yn sefydlu'r pwyntiau graddfa gyflog ar gyfer y Brif Ystod Cyflog a'r Ystod Cyflog Uwch. Mae'r rhain yn delerau ac amodau cenedlaethol.

Mae'r tabl canlynol yn dangos gwerthoedd cyflog blynyddol 2024/25 a'r cyfraddau dyddiol cyfatebol a ddylai fod yn berthnasol i chi fel athro cyflenwi yng Nghymru.

Dylid nodi mai darpariaeth dros dro yw'r rhain, gan fod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn y broses o gynnal ymgynghoriad statudol ar gyflog ac amodau athrawon ysgol, a ddaeth i ben ar 7 Hydref 2024.

Dylai aelodau nodi, er nad yw'r Undeb yn disgwyl i unrhyw ran o'r cyflog dros dro a symiau lwfansau newid, ni all NASUWT warantu na fydd diwygiadau'n cael eu gwneud.

Bydd yr Undeb yn cadarnhau'r graddfeydd cyflog terfynol gyda'r aelodau ar ddiwedd yr ymgynghoriad statudol.

**Sylwch fod y cyfraddau dyddiol hyn cyn didyniadau ar gyfer treth ac Yswiriant Gwladol:**

**Graddfeydd cyngori a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghymru**

#### Athrawon Dosbarth

| Graddfa Cyflog | Tâl Blynyddol | Tâl Dyddiol |
|----------------|---------------|-------------|
| M2 (isaf)      | £32,433       | £166.33     |
| M3             | £35,039       | £179.69     |
| M4             | £37,739       | £193.54     |
| M5             | £40,710       | £208.77     |
| M6 (Uchaf)     | £44,802       | £229.76     |
| U1 (Isaf)      | £46,446       | £238.19     |
| U2             | £48,168       | £247.02     |
| U3 (Uchaf)     | £49,944       | £256.13     |

Byddai'r holl bwyntiau cyflog a lwfansau eraill yn cael eu codi 5.5%, gan gynnwys athrawon heb gymhwyso.



Mae'r Fframwaith Cenedlaethol a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer cyflogi athrawon llanw yn golygu bod yr asiantaethau ar y fframwaith wedi cytuno i dalu isafswm cyfradd dyddiol o gyflog cyfwerth ag M2 i bob athro llanw. Cynghorir aelodau i weithio i asiantaethau sydd wedi ymrwymo i'r cytundeb yn unig.

Mae mater yn codi weithiau mewn ysgolion ynghylch nifer yr oriau y mae athrawon yn 'cael eu talu amdanynt' os ydynt yn cael eu talu yn unol â'r fformiwla hon. Mae hyn oherwydd y gellir cyfeirio athrawon nad ydynt ar y golofn arweinyddiaeth i weithio am 1,265 awr t flwyddyn ar weithgareddau dan gyfarwyddyd pennaeth – ac mae'r gweithgareddau cyfeiriedig hyn yn cynnwys addysgu.

Mae'r cyfanswm o 1,265 o oriau wedi'u rhannu â 195 o ddiwrnodau yn hafal i 6.49 awr ac, felly, mae rhai ysgolion a chyflogwyr yn honni, os nad yw athro yn addysgu am chwe awr a hanner, na ddylid talu'r cyflog blynyddol iddynt. sydd â hawl o dan y STPC(W)D wedi'i rannu â 195.

Fel athro llanw, fe'ch cynghorir i beidio â derbyn taliad sy'n llai na'r cyflog y mae ganddynt hawl iddo, wedi'i rannu â 195 diwrnod am ddiwrnod o waith fel athro llanw.

Mae'n anarferol iawn i athrawon addysgu am chwe awr a hanner y dydd a, hyd yn oed pe baent yn gwneud hynny, ni fyddent yn gwneud hyn bob dydd gan na ellid cyfarwyddo'r athro i gyflawni unrhyw weithgareddau eraill dan gyfarwyddyd gan bennaeth.

Mewn amgylchiadau lle rydych yn gyflogedig am lai na diwrnod, mae'r STPC(W)D yn amodi y dylid cyfrifo eich cyflog ar sail pro rata. Mae NASUWT yn argymhell y dylech, o dan yr amgylchiadau hyn, gael eich talu ar sail sesiwn ysgol.

Mae'r diwrnod ysgol yn seiliedig ar ddwy sesiwn ysgol (sesiwn y bore a sesiwn y prynhawn). Dros 195 diwrnod, mae 390 o sesiynau. Os ydych wedi'ch cyflogi am un sesiwn yn unig (e.e. prynhawn), sy'n fyrrach na'r sesiwn arall (bore), dylech barhau i gael eich talu am y sesiwn ar sail y cyflog blynyddol wedi'i rannu â 390.

## **Cyflogaeth gan asiantaeth**

Mae llawer o athrawon llanw yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan asiantaethau cyflogaeth yng Nghymru neu'n cael gwaith drwyddynt.

Mae NASUWT yn pryderu bod rhai asiantaethau cyflogaeth yn mabwysiadu arferion echrydus ac ecsbloetiol mewn perthynas ag athrawon cyflenwi ac yn ceisio cymryd rhan mewn gweithgareddau gwneud elw er anfantais i athrawon ac ysgolion. Mae'r Undeb yn ymgyrchu'n frwd i sicrhau triniaeth deg i athrawon a gyflogir gan neu drwy asiantaethau cyflenwi (gan gynnwys cwmnïau ymbarél). Mae NASUWT hefyd yn ymgyrchu i sicrhau safonau ansawdd cenedlaethol a rheoleiddio asiantaethau cyflenwi i sicrhau eu bod yn gweithredu'n deg i athrawon ac i ysgolion.

Nid oes unrhyw dâl ac amodau cenedlaethol ar gyfer athrawon cyflenwi a gyflogir gan asiantaethau. Felly, mae asiantaethau yn rhydd i osod eu lefelau cyflog ac amodau eu hunain yn erbyn cefndir o ddeddfwriaeth cyflogaeth gyffredinol. Bydd asiantaethau yn codi cyfradd ddyddiol ar bob ysgol wrth ddarparu athro. Fodd bynnag, bydd y swm a godir ar yr ysgol yn fwy na'r swm a delir i'r athro unigol sy'n gwneud y gwaith cyflenwi.

Er bod asiantaethau cyflenwi yn amlwg yn rhydd i osod eu cyfraddau tâl eu hunain, mae NASUWT yn disgwyl i asiantaethau gydnabod yr angen i sicrhau bod y dyfarniad cyflog cenedlaethol, fel y'i gosodwyd gan STPC(W)D ac a ategir gan Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB), hefyd yn cael ei gymhwyso i athrawon llanw.

O leiaf, byddai NASUWT yn disgwyl i'r codiadau mewn taliadau i athrawon llanw adlewyrchu'r isafswm disgwyliadau a osodir ar awdurdodau lleol gan yr Undeb.

Byddai'n ddoeth cymharu'r cyfraddau a gynigir i athrawon gan bob asiantaeth. Cyn ymgymryd ag aseiniad gydag asiantaeth, mae hefyd yn bwysig cadarnhau ar ba sail y byddwch yn cael eich talu gan yr asiantaeth (e.e. talu fesul awr, sesiynol, neu gyfradd ddyddiol). Mae hyn yn bwysig oherwydd pan fyddwch wedi'ch contractio ar sail cyfradd fesul awr, mae'n bosibl na chewch eich talu am unrhyw amser pan nad ydych yn addysgu.

**Mae'r Rheoliadau Ymddygiad Asiantaethau Cyflogaeth a Busnesau Cyflogaeth** yn gosod safonau gofynnol cyfreithiol ar gyfer gweithwyr asiantaeth y mae'n rhaid i asiantaethau cyflogaeth gadw atynt. Mae hyn yn cynnwys darparu a chytuno ar wybodaeth am gyflog, gan gynnwys pryd a faint fydd athro cyflenwi yn cael ei dalu.

Mewn ymgais i fynd i'r afael â'r ffyrdd lluosog y gallwch gael eich talu fel athro llanw sy'n gweithio drwy asiantaeth, ers mis Ebrill 2020, mae asiantaethau cyflenwi wedi bod yn rhwym yn gyfreithiol i ddarparu **Dogfen Gwybodaeth Allweddol**.

Dylai hwn fod yn fyr ac yn syml i'w ddeall gan gynnwys ffeithiau allweddol sy'n ymwneud â chyflog cyn i chi ymuno ag asiantaeth, gan gynnwys y gyfradd dâl neu'r gyfradd isafswm tâl y gallwch ddisgwyl ei chael, a allai gynnwys cyfeiriad at yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Yn ogystal, rhaid i'r Ddogfen Gwybodaeth Allweddol gynnwys datganiad enghreifftiol o'r hyn sy'n digwydd i'r arian y maent wedi cytuno i'w dalu i chi. **Rhaid i hwn fod yn amcangyfrif rhesymol a realistig.**

O dan ddarpariaethau'r **Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth**, pan rydych wedi bod yn gweithio yn yr un rôl gyda'r un ysgol/cyflogwr am o leiaf 12 wythnos, mae gennych hawl i gael eich talu ar yr un sail ag athrawon eraill a gyflogir gan yr ysgol/cyflogwr. Bydd y swm a delir i chi yn dibynnu ar bolisi cyflog y cyflogwr. Gallwch ofyn am gopi o bolisi cyflog yr ysgol/cyflogwr unrhyw bryd.

Lle mae'r polisi tâl yn aneglur neu heb ei ddarparu ar gais, dylai aelodau gysylltu â **NASUWT** am gyngor a chymorth.